Senedd Cymru
Welsh Parliament

# X – Twitter gynt

1 Mawrth 2024

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 5 Chwefror 2024, pan wnaethoch ofyn,

*Under the Freedom Of Information Act, I am requesting the following information:*

1. *I would like to know how much money the Welsh Government is paying to X (formerly known as Twitter) for ALL ad campaigns on their platform. This includes, but not limited to, ads regarding Climate Change, 20mph speed limits etc.*
2. *Please ensure ALL Senedd and/or Welsh Government run X accounts are included with your amounts.*
3. *Do you have to pay extra for the same ads in both the Welsh and English languages?*

Ar 8 Chwefror, gwnaethoch gadarnhau y dylai eich cais gwmpasu'r cyfnod ers mis Mai 2021, sef dechrau'r Chweched Senedd.

Gweler yr ymateb isod.

1. *I would like to know how much money the Welsh Government is paying to X (formerly known as Twitter) for ALL ad campaigns on their platform. This includes, but not limited to, ads regarding Climate Change, 20mph speed limits etc.*

Mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn ddau sefydliad ar wahân. I ofyn am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru, anfonwch e-bost at: **Rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru**

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Rydym ond yn cadw gwybodaeth am gyfrifon X (a elwid gynt yn Twittter) a reolir gan Gomisiwn y Senedd. Mae'r olaf yn gorff corfforaethol sy'n darparu eiddo, staff a gwasanaethau at ddibenion y Senedd.

2. *Please ensure ALL Senedd and/or Welsh Government run X accounts are included with your amounts.*

Nid yw Comisiwn y Senedd wedi talu unrhyw arian i X yn ystod y cyfnod hwn.

3. *Do you have to pay extra for the same ads in both the Welsh and English languages?*

Gweler ein hymateb i gwestiwn 2 uchod.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF